Cofnodion cyfarfod 12 Medi 2023 a gynhaliwyd YN Y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr		
PRESENNOL		
Eifion Williams	Cynog Prys	
Llŷr Evans	Emyr Gareth	
Eleri wyn Thomas	Dafydd	
Elenid Glyn	Iwan Huws	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Iwan Huws a chroesawyd yr aelodau yn ôl ar ôl gwyliau'r haf. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Cynog Prys, a Nel Huws. Yn Dilyn hysbysiad ffurfiol am etholiad ar gyfer llenwi'r ddwy sedd wag, cafwyd dau aelod o'r cyhoedd yn dangos diddordeb ac wedi mynychu eu cais. Roedd y Ddau yn cymwys, derbyniwyd eu ceisiadau ac fe gyfetholwyd Elen Gwenllïan a Kevin Parry i'r Cyngor Cymuned. Byddant yn mynychu eu cyfarfod cyntaf ym mis Hydref.	
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	
1.2	Bwrdd Cyfathrebu - ystyriwyd y mater o godi bwrdd yn y Cae Chwarae ar y traeth a phenderfynwyd derbyn bwrdd os oedd un ar gael a byddai'r Cyngor wedyn yn gwneud y gwaith o'i godi gyda dealltwriaeth Cyngor Gwynedd.	**CLERC**
1.3	Cofrestru'r Diffibrilwyr - mae dau fater angen ystyriaeth, cyfrifoldeb a chofrestru diffibrilwyr o fewn y pentref. Mae'r Cynghorwyr Dan Williams a Meleri Jones yn gweithredu ar y ddwy eitem yma.	**CLERC** **DW**
1.4	Etholiadau Gwynedd - Ffiniau (Holiadur Cymunedau) - cafwyd trafodaeth bod sawl eiddo ar Ffordd Heulyn o fewn ward Pentir a bod hyn ddim yn gwneud synnwyr. Y Clerc i gwblhau'r holiadur.	**CLERC** **DW**
1.5	Lon o flaen Tai Gwelfor - mae cyflwr y ffordd yn ofnadwy ac angen Gwaith ar frys. Mae Swyddog Priffyrdd wedi cysylltu ag un o'r trigolion. Deallir bod y ffordd a'r rhestr waith y Cyngor. Y Clerc i anfon at y swyddog i gael y diweddariad ar y mater.	**CLERC**
1.6	Ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd 2024-2025 Awdit Cymru – dim sylwadau	
1.7	Ymgynghoriad cyhoeddus Ombwdsmon Cymru ar: Ein Cynllun Cydraddoldeb 2023-2026 – dim sylwadau ond bydd ymateb yn cael ei roi ymlaen gan Unllais Cymru.	
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol y Cyngor am fis Gorffennaf ag Awst gan y Clerc ac fe'u derbyniwyd. Gwelwyd bod anfoneb y toiledau wedi ei dalu eto eleni. Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn beth yw'r gwasanaeth sydd yn cael ei roi am y £4000. Y Toiledau i fod yn eitem ar agenda mis Hydref.	**CLERC**

4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Gan na chadarnhawyd cofnodion mis Mehefin oherwydd nid oedd digon o'r aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn bresennol yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2023 felly eu cyflwynwyd eto, derbyniwyd hwy fel rhai cywir. Cyflwynwyd Cofnodion mis Gorffennaf 2023 gan y Clerc ac fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.	**CLERC**
4.2	Wi-Fi – er bod cyswllt wedi ei wneud gyda Menter Môn, nid oes cynnydd wedi ei wneud – Y Clerc i wneud cyswllt eto a'r swyddogion.	
4.3	Llwybr 16 - dim dilyniant wedi bod ar y mater hwn, roedd Swyddog Llwybrau Gwynedd yn disgwyl cael gwybodaeth ynglŷn â chyllido gwaith i arall gyfeirio dŵr oddi wrth ffordd brynffynnon - Y Clerc i anfon ar Gyngor Gwynedd eto ar y mater. Llwybr 8 Cerrig yr Afon -deallir bod ffens ar y llwybr angen sylw a hefyd bod angen torri'r tyfiant. Mae giât ar ben ochr y Wern eisiau sylw gan nad yw yn cau. Mae'r, materion hyn i gyd yn gyfrifoldeb i Gyngor Gwynedd. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd. Cafwyd adroddiad hefyd bod wal wedi dymchwel ar Lwybr 17, Y Clerc i anfon lluniau at Gyngor Gwynedd.	**CLERC**
4.4	Cyfrifiad diffibrilwyr – Gweler eitem 1.3	**CLERC ASEDAU**
4.5	Llifogydd Afon Heulyn – y mater hwn yn parhau.	**CLERC**
4.6	Datblygiad Penybryn - dim gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn. Y Clerc i wneud ymholiadau pellach a Chyngor Gwynedd.	**CLERC**
4.7	Cynllun Rheoli Traffig - dim ymateb wedi bod gan yr Heddlu. Y Clerc wedi anfon at yr Heddlu unwaith yn rhagor, os nad oes ymateb yna bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod rhan Cyngor Gwynedd ag Asiantaeth Cefnffyrdd.	**CLERC**
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
5.1	Rhif Cais: C23/0546/20/AC Lleoliad: Oaklands Penybryn, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4YQ Bwriad: Cais i ddiwygio Amod 2 o ganiatâd cynllunio C13/0950/20/LL ar gyfer codi tŷ tri llawr er mwyn caniatáu newidiadau i'r dyluniad terfynol – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
5.2	Rhif Cais: C23/0493/20/DT Lleoliad: Fron Helig, 42 Bryn Ffynnon, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4SJ Bwriad: Porth car arfaethedig dros y mannau parcio presennol gyda balconi uwchben. – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
5.3	Rhif Cais: C23/0493/20/DT Lleoliad: Fron Helig, 42 Bryn Ffynnon, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4SJ Bwriad: Porth car arfaethedig dros y mannau parcio presennol gyda balconi uwchben. – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
5.4	PROSIECT: TIR ODDI AR Y WERN, Y FELINHELI, GWYNEDD GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (TREFN RHEOLI DATBLYGU) (CYMRU) 2012 CYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORI CYN GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO – HYSBYSIAD O DAN ERTHYGLAU 2C A 2D –	

	Y Cyngor i anfon y sylwadau canlynol: **Llifogydd** Rydym o'r farn nad ydy'r asesiad llifogydd (FCA) wedi rhoi ystyriaeth ddigonol o'r risg llifogydd. Mae'n cydnabod fod mapiau CNC yn dangos risg llifogydd o'r nant sy'n llifo trwy'r safle ond does dim cyfeiriad at sut bydd y risg yma'n cael ei reoli (mae'n werth nodi fod yr FCA yn son am y 'sequential test' ond polisi Lloegr yw hwn ac nid yw yn berthnasol i bolisi cynllunio TAN15). Does dim cyfeiriad at y culvert ar ben gogleddol y safle nac ystyriaeth i be allai ddigwydd os byddai hwn yn blocio. Mae hanes llifogydd yn y lleoliad (ac ymhellach i lawr yn Ger y Nant a Cerrig yr Afon) ac mae dŵr yn aml i weld yn llifo o'r safle ar draws y ffordd gyferbyn a'r ysgol. Rydym yn awgrymu y dylai'r FCA gael ei ddiwygio i roi ystyriaeth iawn i'r risg llifogydd i'r safle ac i ystyried os oes risg y byddai'r datblygiad yn gwaethygu risg llifogydd yn lleol. Dylai'r datblygwr ymchwilio yn fwy manwl i gyflwr y culvert ac os oes siawns y gallai blocio. **Draenio / SuDS** Mae'r cynllun 'proposed drainage' yn awgrymu gosod dau bwll SuDS ger y nant - er mwyn rheoli faint o ddŵr sy'n llifo o'r safle. Rydym yn bryderus fod lleoliad y pyllau yma yn anaddas - mewn llifogydd mae'n debyg y byddant wedi llenwi gyda dŵr o'r nant cyn y gallant fod yn effeithiol yn rheoli llif dwr o'r safle. Rydym felly yn bryderus y gallai'r cynllun presennol waethygu risg llifogydd i lawr yr afon - gan gynnwys cartref henoed Cerrig yr Afon. Dylai'r cynllun yma gael ei ail-ystyried **Parcio** Mae lleoliad y fynedfa yn debyg o achosi lleihad yn y nifer o lefydd parcio ar-stryd. Gyda phwysau parcio ger yr ysgol yn barod yn achosi problem i drigolion lleol, byddem yn falch o weld y datblygwyr yn cynnwys llefydd parcio cyhoeddus ger ffordd yr ysgol i wneud i fyny am unrhyw lefydd parcio stryd fyddai'n cael eu colli	
5.5	Apêl: CAS-02597-H0Y6Z6 Pant Erys, 34 Glan Y Môr, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RQ Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw'n ôl i godi tri thŷ· annedd deulawr â un ohonynt yn fforddiadwy - a chreu mynedfa a darparu gofod parcio o dan y tai ar y llawr daear. - **BYDD SYLWADAU'R CYNGOR CYMUNED YN PARHAU, NID OES DIM SYLWADAU PELLACH I'W YCHWANEGU.**	
5.6	CAS-02663-G3B7F0 Tir gyferbyn a Bangor Street, Y Felinheli, LL56 4JQ Lleoli dwy siale wedi'u gosod ar siasi ynghyd â thirlunio a gosod sgrin blannu. - **BYDD SYLWADAU'R CYNGOR CYMUNED YN PARHAU, NID OES DIM SYLWADAU PELLACH I'W YCHWANEGU.**	

6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau. Bydd angen gweithio tuag at gael polisi bioamrywiaeth yn fuan.	
7.0	**ASEDAU**	
	Dim i'w adrodd	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**	
8.1	Cafwyd adroddiad bod Penceunant yn parhau heb olau stryd – Y Clerc i wneud ymholiadau a Gwaith Goleuadau Stryd Cyngor Gwynedd.	**CLERC**
8.2	Mae lleoliadau ar y Lon Las gyda mwsogl sydd yn creu anhawster i ddefnyddwyr ei ddefnyddio. Mae adroddiadau bod cerddwyr wedi llithro a syrthio oherwydd y mwsogl. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd. Y Lleoliadau yw , Ardal ger Llwybr Dinas a Llwybr ger y Maes Parcio	**CLERC**
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Dim byd ychwanegol adrodd i'r hyn a gyflwynwyd ym mis Mehefin.	**DW**
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dim i'w adrodd	
11.0	**UNRHYW FATER ARALL**	
11.1	Nodwyd bod angen ystyried syniadau a gafwyd ar ddydd Gŵyl y Felin - bydd yr eitem yma ar agenda cyfarfod mis Hydref.	
11.2	Ar ddiwedd y cyfarfod fe gyflwynodd y Cadeirydd Iwan Huws ei ymddiswyddiad fel Cynghorydd Cymuned. Fe gyflwynodd ei resymeg am wneud hyn ond dywedodd y byddai yn barod i ymddangos ger y Cyngor ar gais y Cyngor i drafod materion sirol.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 10:00	
Llofnod:		**Dyddiad:** **10/10/23**

Heather Lynne Jones